YSTADEGAU

# Arolwg heintiadau coronafeirws (COVID-19) (amcangyfrifon positifedd): 5 i 11 Medi 2021

Dadansoddiad o gyfran y bobl sy'n profi'n bositif am COVID-19 ar gyfer 5 i 11 Medi 2021.

Cyhoeddwyd gyntaf: 17 Medi 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 17 Medi 2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-5-i-11-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Cyfran y bobl yng Nghymru a gafodd COVID-19

Canran y bobl sy'n profi'n bositif yn ôl rhanbarth

Amcangyfrifon o ddigwyddedd yng Nghymru

Amcangyfrifon ar gyfer gwledydd y DU

Diffiniadau

Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Manylion cyswllt

Mae data gwrthgyrff ar gyfer Cymru ymhellach yn cael ei gyhoeddi bob pythefnos mewn datganiad gwahanol.

Mae Arolwg Heintiadau Coronafeirws (COVID-19) yn cael ei gynnal ledled y DU a'i nod yw amcangyfrif:

- faint o bobl sydd â'r haint dros gyfnod penodol (positifedd)
- faint o achosion newydd sy'n digwydd dros gyfnod penodol (digwyddedd)
- faint o bobl sydd â gwrthgyrff i COVID-19

Mae'r arolwg yn helpu i olrhain lefelau heintio a throsglwyddo COVID-19 ymhlith pobl mewn preswylfeydd preifat, sef **poblogaeth gymunedol**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-5-i-11-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Cyfran y bobl yng Nghymru a gafodd COVID-19

Ar gyfer yr wythnos 5 i 11 Medi 2021 amcangyfrifir bod gan 1.62% o'r **boblogaeth gymunedol** COVID-19 (**cyfwng credadwy** o 95%: 1.27% i 2.01%).

Mae hyn yn gyfwerth i tua 1 o bob 60 o unigolion (cyfwng credadwy o 95%: 1 o bob 80 i 1 o bob 50), neu amcangyfrif o 49,100 o bobl i gyd (cyfwng credadwy: 38,500 to 61,000).

Mae canran y bobl sy'n profi'n bositif wedi parhau i gynyddu yn ystod yr wythnos ddiweddaraf.

Gan fod yr amcangyfrifon yn seiliedig ar nifer gymharol isel o brofion positif, dylid bod yn ofalus wrth orddehongli unrhyw symudiadau bach yn y duedd ddiweddaraf.

Ceir rhagor o wybodaeth am y dosbarthiad o achosion positif ar **wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)**.


Sylwer bod yr oediad yn fwy mewn data o'r arolwg heintiadau nag o ffynonellau eraill fel **Iechyd Cyhoeddus Cymru**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-5-i-11-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Siart 1: Amcangyfrif o’r ganran o boblogaeth Cymru sydd wedi profi’n bositif am y coronafeirws (COVID-19) drwy swabiau trwyn a gwddf ers 1 Awst 2021




Ffynhonnell: Arolwg Heintiadau Coronafeirws (COVID-19), ONS
Mae'r llinell las a'r graddliwio yn cynrychioli'r duedd wedi'i modelu a'r cyfyngau credadwy yn seiliedig ar y data diweddaraf. Mae’r amcangyfrifon pwyntiau a'r bariau gwallau yn amcangyfrifon swyddogol a gyhoeddwyd ar y pryd. Mae'r amcangyfrifon ar gyfer dyddiau olaf y gyfres, a ddangosir fel llinellau toredig yn y siart, yn fwy ansicr.

Ers diwedd Mis Mai, mae’r heintiau sy'n cytûn â'r amrywiolyn Delta fu'r mwyaf cyffredin ar draws pedair gwlad y DU. Oherwydd y gyfran uchel hon o amrywiolyn sengl, nid ydym wedi cynnwys unrhyw ddadansoddiad yn ôl amrywiad. **Cyhoeddwyd ein prif ddadansoddiad ddiwethaf ar amrywiolion** ar 23 Gorffennaf 2021, lle gellir dod o hyd i fwy o fanylion. Bydd heintiau yn ôl amrywiad yn parhau i gael eu monitro a byddant yn ailgyflwyno'r dadansoddiad pe bai’r sefyllfa yn newid.

Mae canran y bobl sy'n profi'n bositif am COVID-19 yn ôl blwyddyn unigol o oed

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-5-i-11-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ers 1 Awst 2021 ar gyfer Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban i'w gael yn **set ddata'r SYG**.


## Canran y bobl sy'n profi'n bositif yn ôl rhanbarth

Darperir amcangyfrifon wedi'u modelu ar gyfer rhanbarthau yng Nghymru. Darperir amcangyfrifon ar gyfer y saith diwrnod hyd at 11 Medi 2021 yn seiliedig ar fodelu'r holl cyfnod saith diwrnod.

Ymddengys bod cyfraddau o achosion positif yn uwch yn y rhan fwyaf o rhanbarthau ar draws cymru ar eu huchaf yn y rhanbarth sy'n cwmpasu Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam, er bod y gwahaniaethau rhwng y rhanbarthau yn fach.

Mae angen cymryd gofal wrth gymharu amcangyfrifon rhanbarthol yn erbyn yr amcangyfrif cenedlaethol cyffredinol. Mae'r amcangyfrifon rhanbarthol yn seiliedig ar fodel gwahanol ac ni ddylid eu cymharu â'r amcangyfrif positifedd cenedlaethol. Oherwydd meintiau sampl llai, mae mwy o ansicrwydd mewn amcangyfrifon ar gyfer rhanbarthau unigol, fel y dangosir gan gyfyngau credadwy mwy.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-5-i-11-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.





Ffynhonnell: Arolwg Heintiadau Coronafeirws (COVID-19), ONS

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-5-i-11-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

### Siart 2: Amcangyfrifon o ganran y boblogaeth yng Nghymru sy'n profi'n bositif am y coronafeirws (COVID-19) fesul rhanbarth rhwng 5 i 11 Medi 2021




Ffynhonnell: Arolwg Heintiadau Coronafeirws (COVID-19), ONS
Mae'r bariau glas yn rhoi amcangyfrifon pwyntiau ac mae'r linellau llorweddol yn dangos y cyfyngau credadwy 95%. Amcangyfrifon wedi'u modelu ar gyfer amcangyfrifon ranbarthol am y saith diwrnod hyd at 11 Medi 2021 yn seiliedig ar fodelu'r holl cyfnod saith diwrnod.

## Amcangyfrifon o ddigwyddedd yng Nghymru

Mae amcangyfrifon ddigwyddedd o achosion PCR-positif wedi'u cynhyrchu ar gyfer Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban ac maen nhw ar gael yn y tablau data ar **wefan y SYG**.

Mae digwyddedd heintiau newydd (nifer yr heintiau newydd mewn cyfnod penodol o amser) yn ein helpu i ddeall pa mor gyflym y mae heintiau yn cynyddu yn y boblogaeth. Mae hefyd yn cefnogi’r prif fesur o bositifedd (faint o bobl sy’n profi’n bositif unrhyw bryd) i roi dealltwriaeth fwy trylwyr o bandemig y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-5-i-11-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

coronafeirws (COVID-19).

I gael rhagor o wybodaeth am y dull newydd o amcangyfrif digwyddedd, gweler yr erthygl dulliau wedi'u diweddaru ar **wefan y SYG**.

Yng Nghymru, ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 28 Awst 2021, rydym yn amcangyfrif bod 13.01 o achosion newydd o brofion positif o'r coronafeirws (COVID-19) fesul 10,000 o bobl y dydd (cyfwng credadwy o 95%: 9.98 i 16.82).

Mae hyn yn gyfwerth â 4,000 o achosion positif newydd yng Nghymru y dydd (cyfwng credadwy o 95%: 3,000 to 5,100).

Pan fydd nifer yr achosion yn isel iawn, efallai na fydd yn bosibl i gynhyrchu amcangyfrif dibynadwy.

## Amcangyfrifon ar gyfer gwledydd y DU


Yng nghanol yr wythnos ddiweddaraf (5 i 11 Medi 2021), roedd canran amcangyfrifedig y boblogaeth gymunedol â COVID-19 ledled y DU, yn amrywio o 1.28% yn Lloegr i 2.29% yn yr Alban.

Mae canran y bobl sy'n profi'n bositif wedi'i aros yn uchel yn ystod yr wythnos ddiweddaraf yn Lloegr, ond mae'r duedd yn ansicr. Mae positifedd wedi'i cynyddu yn yr wythnos ddiweddaraf yn yr Alban ac yng Nghymru, ond wedi'i gostwng yng Ngogledd Iwerddon.

Mae rhywfaint o ansicrwydd o ran yr amcangyfrifon pwynt unigol ar gyfer y gwledydd. Mae'r amcangyfrifon ar gyfer dyddiau diwethaf y gyfres, a ddangosir fel llinellau toredig yn y siart isod, yn fwy ansicr.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-5-i-11-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Siart 3: Amcangyfrifon o ganran y boblogaeth yng ngwledydd y DU sy'n profi'n bositif am y coronafeirws (COVID-19) ar swabiau trwyn a gwddf ers 1 Awst 2021




Ffynhonnell: Arolwg Heintiadau Coronafeirws (COVID-19), ONS
Mae'r llinellau'n cynrychioli'r tueddiad sydd wedi'i fodelu sy'n seiliedig ar y data diweddaraf. Mae'r amcangyfrifon ar gyfer dyddiau olaf y gyfres, a ddangosir fel llinellau toredig yn y siart, yn fwy ansicr.

Mae'r tablau canlynol yn crynhoi cyfraddau positifedd a chyfraddau digwyddedd ledled gwledydd y DU.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-5-i-11-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Tabl 1: Cyfraddau positifedd profion ar draws gwledydd y DU ar gyfer yr wythnos o 5 i 11 Medi 2021

| Gwlad | Cyfraddau positifedd (Cyfyngau Credadwy 95%) | | |
|---|---|---|---|
| **Cymru** | 1.62%<br>(1.27 i 2.01) | 1 o bob 60 o bobl<br>(1 o bob 80 i 1 o bob 50) | 49,100 o bobl<br>(38,500 i 61,000) |
| **Lloegr** | 1.28%<br>(1.19 i 1.36) | 1 o bob 80 o bobl<br>(1 o bob 85 i 1 o bob 75) | 697,100 o bobl<br>(650,600 i 743,800) |
| **Yr Alban** | 2.29%<br>(1.94 i 2.67) | 1 o bob 45 o bobl<br>(1 o bob 50 i 1 o bob 35) | 120,800 o bobl<br>(102,200 i 140,700) |
| **Gogledd Iwerddon** | 1.36%<br>(0.97 i 1.83) | 1 o bob 75 o bobl<br>(1 o bob 100 i 1 o bob 55) | 25,000 o bobl<br>(17,700 i 33,600) |

Ffynhonnell: Arolwg Heintiadau Coronafeirws (COVID-19), Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

# Tabl 2: Amcangyfrifon swyddogol o gyfraddau digwyddedd ledled gwledydd y DU, 22 i 28 Awst 2021

| Gwlad | Digwyddedd (Cyfyngau Credadwy 95%) | |
|---|---|---|
| **Cymru** | 13.01 o achosion i bob 10,000 o bobl y dydd<br>(9.98 i 16.82) | 4,000 o achosion newydd y dydd<br>(3,000 i 5,100) |
| **Lloegr** | 11.19 o achosion i bob 10,000 o bobl y dydd<br>(10.10 i 12.36) | 61,000 o achosion newydd y dydd<br>(55,000 i 67,400) |
| **Yr Alban** | 20.17 o achosion i bob 10,000 o bobl y | 10,600 o achosion newydd y |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-5-i-11-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| Gwlad | Digwyddedd (Cyfyngau Credadwy 95%) | |
|---|---|---|
| | dydd<br>(16.46 i 24.55) | dydd<br>(8,700 i 12,900) |
| **Gogledd Iwerddon** | 13.96 o achosion i bob 10,000 o bobl y dydd<br>(8.82 i 19.98) | 2,600 o achosion newydd y dydd<br>(1,600 i 3,700) |

Ffynhonnell: Arolwg Heintiadau Coronafeirws (COVID-19), Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

# Diffiniadau

## Achosion sy'n cytûn ag amrywiolion

Achosion y nodwyd eu bod yn cytûn ag amrywiolion hysbys o Covid-19 yn seiliedig ar eu patrymau genetig. Yn ddiweddar, mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) wedi ail-labelu **Amrywiolion o Bryder ac Amrywiolion o Ddiddordeb**. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am nodi amrywiolion yn yr arolwg ar **wefan y SYG**.

## Poblogaeth gymunedol

Mae'r Arolwg hwn yn cynnwys pobl sy'n byw mewn aelwydydd preifat, a chyfeirir atynt fel poblogaeth gymunedol. Nid yw'n cynnwys pobl mewn ysbytai, cartrefi gofal a/neu leoliadau sefydliadol eraill.

## Cyfyngau hyder

Mae cyfwng hyder yn dangos y lefel o sicrwydd i amcangyfrif, gan ddangos pa

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-5-i-11-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

mor gywir yw amcangyfrif sampl. Mae'r cyfyngau hyder o 95% yn cael eu cyfrifo i sicrhau, pe baem yn ailadrodd yr astudiaeth lawer o weithiau, y byddai'r gwir gwerth nad yw'n hysbys rywle rhwng y terfynau hyder isaf ac uchaf, 95% o'r amser. Mae gorgyffwrdd rhwng y cyfryngau hyder yn dangos ei bod yn bosibl nad oes gwahaniaeth gwirioneddol rhwng dau amcangyfrif.

## Cyfwng credadwy

Mae cyfwng credadwy yn dangos y lefel o ansicrwydd i amcangyfrif mewn dadansoddiad data. Mae cyfryngau credadwy o 95% yn cael eu cyfrifo i sicrhau mai'r tebygolrwydd y bydd y gwir gwerth o fewn y cyfrwng yw 95%.

## Digwyddedd

Nifer yr heintiadau newydd dros gyfnod penodol.

## Amcangyfrifon wedi'u seilio ar fodelau ystadegol

Mae amcangyfrifon o bositifedd yn yr arolwg hwn yn seiliedig ar fodelau ystadegol o'r data gwaelodol. Mae'r model yn llyfnu'r gyfres i ddeall y tueddiad, ac mae'n cael ei adolygu bob wythnos i gynnwys canlyniadau profion newydd.

## Amcangyfrifon pwynt

Mae amcangyfrifon pwynt yn seiliedig ar y tueddiad wedi'i fodelu, ac maent yn adlewyrchu'r pwynt cyfeirio mwyaf cynrychiadol ar gyfer yr wythnos o dan sylw.

## Y gyfradd positifedd

Yr amcangyfrif o'r gyfran o bobl sy'n cael canlyniad positif i brawf am y coronafeirws (COVID-19) ar adeg penodol, gyda symptomau neu hebddynt, yn seiliedig ar swabiau trwyn a gwddf.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-5-i-11-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Mae canlyniadau'r arolwg wedi'u seilio ar swabiau trwyn a gwddf a ddarparwyd gan y cyfranogwyr. Mae is-grŵp o gyfranogwyr hefyd yn rhoi sampl o waed, wedi'i chymryd gan staff maes wedi eu hyfforddi.

Yn ogystal ag edrych ar **ddigwyddedd** cyffredinol, **positifedd** a lefel gwrthgyrff, defnyddir yr arolwg i edrych ar nodweddion y rhai sy'n profi'n bositif am COVID-19 a gweld i ba raddau y mae pobl sydd wedi'u heintio yn cael symptomau. Mae'r canlyniadau ar gyfer cartrefi preifat yn unig ac nid ydynt yn cynnwys pobl mewn ysbytai, cartrefi gofal neu leoliadau sefydliadol eraill. Cyfeirir at hyn fel **poblogaeth gymunedol**.

Mae'r arolwg yn cynnwys pob gwlad yn y DU, gan alluogi cyfrifo amcangyfrifon ar gyfer pob gwlad yn unigol, ac yn y pen draw ar gyfer y DU gyfan.

Wrth gymharu Test and Trace (T&T) ac amcangyfrifon o'r Arolwg Heintiau COVID-19 mae'n bwysig i nodi bod T&T yn darparu gwybodaeth am nifer y bobl sydd wedi'u profi yn bositif, tra bod yr amcangyfrifon yn y datganiad hwn yn seiliedig ar gyfanswm y bobl sydd ar hyn o bryd wedi'u heintio ar adeg benodol (mynychder). Mae amcangyfrifon o'r arolwg hwn hefyd yn seiliedig ar sampl ar hap o'r boblogaeth, gan gynnwys pobl sy'n anghymesur. Mae unigolion anghymesur yn llai tebygol o fynd am brawf ac felly'n ymddangos yn y data T&T.

Dechreuodd y maes gwaith yn Lloegr ar 26 Ebrill 2020. Mae hyn yn golygu bod rhagor o ddata cronnol ar gyfer Lloegr, sy'n galluogi dadansoddiadau mwy manwl ar hyn o bryd. Dechreuodd gwaith maes yng Nghymru ar 29 Mehefin 2020, wedyn yng Ngogledd Iwerddon ar 26 Gorffennaf 2020 ac yn yr Alban ar 21 Medi 2020.

Mae'n bwysig nodi bod cryn dipyn o ansicrwydd o ran yr amcangyfrifon. Y rheswm am hyn yw, er gwaethaf sampl fawr o gyfranogwyr, fod nifer yr achosion positif a nodwyd yn fach. Rhoddir yr amcangyfrifon gyda **chyfyngau credadwy** neu **cyfyngau hyder** o 95% i ddangos yr ystod y gallwn fod yn hyderus bod y gwir ffigur wedi'i gynnwys ynddi.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-5-i-11-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae’r **amcangyfrifon wedi’u seilio ar fodelu ystadegol**. Mae gwaith modelu'n cael ei wneud o'r newydd bob wythnos gan ddefnyddio'r data am y 6 wythnos ddiwethaf. Mae'r model yn gweithio drwy hwyluso’r gyfres i ddeall y duedd ac mae'n cael ei diwygio bob wythnos i gynnwys canlyniadau profion newydd. Mae hyn yn golygu y gallai'r amcangyfrif diweddaraf am gyfnod cynharach fod yn wahanol i'r amcangyfrif swyddogol a gynhyrchwyd ar y pryd. Dengys Siart 1 y duedd ddiweddaraf wedi'i modelu a'r **amcangyfrifon swyddogol (pwynt)** a gyhoeddwyd ar y pryd.

Mae’r SYG yn cyhoeddi **bwletinau ystadegol wythnosol, tablau cyfeirio** ac **erthyglau ystadegol** cyfnodol, gan gynnwys canlyniadau ar gyfer Cymru, Lloegr a’r Alban ar ei gwefan. Mae’r amcangyfrifon ar gyfer **Gogledd Iwerddon** a’r **Alban** yn cael eu cyhoeddi gan y gwahanol weinyddiaethau, yn yr un modd ag yma yng Nghymru.

Mae rhagor o wybodaeth am ansawdd a methodoleg ar gael ar **wefan y SYG**.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o’r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion (“dangosyddion cenedlaethol”) sy’n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni’r nodau llesiant, a (b) gosod copi o’r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. Cafodd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol eu gosod ym mis Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn **adroddiad Llesiant Cymru**.

Gwybodaeth bellach am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-5-i-11-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Diweddariad nesaf

24 Medi 2021

# Manylion cyswllt

Ystadegydd: Sean White
Llinell Ymholiadau Cyffredinol
Ffôn: 0300 025 5050
E-bost: **kas.covid19@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

SFR 282/2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-5-i-11-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Arolwg heintiadau coronafeirws (COVID-19) (amcangyfrifon positifedd): 5 i 11 Medi 2021** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-5-i-11-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-5-i-11-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.